PRESS RELEASE

DATGANIAD I'R WASG

For immediate release

Working together to make Cardiff one of the best recycling cities in the world

The Pink Sticker Campaign will be launched on March 2nd, as part of the Council's plans to improve the quality of the recycling and composting collected from residents' homes, to help Cardiff to become one of the best recycling cities in the world.

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Environment and Recycling at Cardiff Council is leading the campaign to ensure the city can strive towards the challenging recycling and composting targets which have been set by the Welsh Government up until 2025.

Cllr Michael said: "This scheme has been designed to give extra help to residents to recycle as much of their waste as possible.

"Primarily, the Pink Sticker Campaign is an education campaign, so that those who are not recycling their waste correctly are given additional advice and support so that we can improve the quality of the recycled material collected.

"This in turn will increase the amount of waste the city can recycle, reduce operating costs and improve the working conditions for our staff at the Materials Reclamation Facility who currently have to remove items such as used nappies, clothes and food waste from the green bags, as the different products are separated for recycling."

Figures released by the council show that 20% of waste being put into green bags for recycling contains incorrect materials which hamper the recycling process. The main offenders are dirty nappies, clothes, packaging and food waste.

Green garden waste is also being presented with incorrect materials such as watering cans, cardboard, garden furniture and even parts of sheds being placed in green-wheelie bins. Although contamination levels are lower at 5% the council hopes its new scheme will boost recycling figures across the city.

The new campaign will see bright pink stickers placed on recycling and garden waste bags or bins alerting residents that they contain incorrect items. If a pink sticker is put onto a container, residents will have to take their waste back into their property to remove the incorrect items before they put their recycling out again on the next collection date.

Cllr Michael Michael continued: "If people see pink we want them to stop and think. The Council currently collects dry recyclables in green bags, to make it as easy as possible for residents to recycle their waste.

"Currently the council collects just over 40,000 tonnes of recycled waste from the city's streets every year, but 7,000 tonnes of this waste either cannot be recycled or is so contaminated with other materials that it cannot be separated for recycling.

"For the waste which is put in the green bags, the most common errors are putting food waste, nappies and textiles into the green bags. There is no need to place these items into the green recycling bags, as we have separate weekly food waste collections, and a hygiene collection for nappies. You can also take items such as textiles to our Household Waste Recycling Centres.

"For the green garden waste, we only want grass, tree or shrub cuttings. These are the only items that should be put in the green-wheelie bins.

"If you see a pink sticker on your waste in future then you'll also see an online address for our A to Z of recycling on the Council's website. There you can check what materials can be recycled in our kerbside collection service.

"We are also asking residents to rinse out their cans, tins and glass before they recycle them. It will all help to make Cardiff one of the world's best cities for recycling and that's something we can all be proud of."

The new ‘See Pink, Stop and think" campaign will consist of five easily followed stages:

Stage 1) if incorrect recyclable waste is seen by waste collectors in either the green bags or the green-wheelie bin, a pink sticker will be placed on the container advising the resident to take action.

Stage 2) if the incident happens again, another sticker will be put on the container and a letter will be sent to the address advising the resident that they have put incorrect items in their waste and advising them to take action.

Stage 3) if a third breach occurs, a third sticker will be put on the container and a formal letter will be sent to the resident to advise them that they could receive a fixed penalty notice they present contaminated recycling again.

Stage 4) if a further breach occurs, a fourth sticker will be put on the waste container and a Section 46 Notice will be issued. This is a legal letter to notify the resident how waste should be presented for collection and that failure to comply will result in a fixed penalty notice.

Stage 5) on the 5th occasion, a notification will be sent to our street scene Enforcement Officers. They will visit the location of the contamination, search and remove the waste. Fixed Penalty Notices will be issued where evidence is found. The £100 Fixed Penalty Notice is not automatically generated.

The pink stickers will point residents to the Council’s website, which gives an ‘A-Z of recyclables' so they can familiarise themselves with what items should be put in the containers provided.

Over a rolling 12-week period, if a resident puts incorrect items in either their green bags or their green compost bin (or bags) on five separate occasions, they will be given a fixed penalty notice of £100.

Cllr Michael continued: "It is important to emphasise that this campaign and the five stages outlined only apply to residents putting the wrong materials in their recycling and composting. For all other environmental offences, such as littering, fly tipping, flyposting, as well as others, waste enforcement will operate as usual.

"Don't forget, even though some items can't be recycled at the kerbside, we can recycle over 20 other items at our Household Waste Recycling Centres. There are more details here

"The scheme is being carried out in accordance with the Welsh Government's Guidance on waste education and enforcement."

If a resident ignores the pink sticker and leaves their waste out on the street the five-step process can be skipped and they could face an immediate £100 fixed penalty notice for littering.

Sorting this unrecyclable waste from the city's recycling streams costs the council and the tax payer in the region of £750,000 a year, and has a negative impact on the city's recycling performance which could lead to multi-million pound penalties from Welsh Government for failing to hit our challenging recycling targets.

It's hoped that the new campaign will improve the quality of recycling collected in the city, increase the recycling rate and help the city play its part in tackling climate change.

Cardiff Council Media Advisor Ian Lloyd-Davies Tel: 029 2087 2969

Email: **ILloyd-Davies@cardiff.gov.uk**

Gweithio gyda'n gilydd i wneud Caerdydd yn un o'r dinasoedd ailgylchu gorau yn y byd

Caiff yr ymgyrch sticer pinc ei lansio ar 2 Mawrth, fel rhan o gynlluniau'r Cyngor i wella ansawdd yr ailgylchu a'r compostio a gesglir o gartrefi preswylwyr, i helpu Caerdydd i ddod yn un o'r dinasoedd ailgylchu gorau yn y byd.

Y Cynghorydd Michael Michael, Aelod y Cabinet dros Strydoedd Glân, yr Amgylchedd ac Ailgylchu yng Nghyngor Caerdydd sy'n arwain yr ymgyrch i sicrhau y gall y ddinas ymdrechu i gyrraedd y targedau heriol ar gyfer ailgylchu a chompostio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru hyd at 2025.

Dywedodd y Cynghorydd Michael: "Mae'r cynllun hwn wedi'i gynllunio i roi cymorth ychwanegol i drigolion i ailgylchu cymaint â phosibl o'u gwastraff.

"Yn bennaf, mae'r Ymgyrch Sticer Pinc yn ymgyrch addysg, fel bod y rhai nad ydynt yn ailgylchu eu gwastraff yn gywir yn cael cyngor a chymorth ychwanegol fel y gallwn wella ansawdd y deunydd ailgylchu a gesglir.

"Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu faint o wastraff y gall y ddinas ei ailgylchu, gan leihau costau gweithredu a gwella amodau gwaith ein staff yn y Cyfleuster Adfer Deunyddiau sydd ar hyn o bryd yn gorfod tynnu eitemau megis cewynnau wedi'u defnyddio, dillad a gwastraff bwyd o'r bagiau gwyrdd, gan fod y gwahanol gynhyrchion yn cael eu gwahanu i'w hailgylchu. "

Mae ffigurau a ryddhawyd gan y Cyngor yn dangos bod 20% o wastraff sy'n cael ei roi mewn bagiau gwyrdd i'w ailgylchu yn cynnwys deunyddiau anghywir sy'n llesteirio'r broses ailgylchu. Y pethau gwaethaf yw clytiau budr, dillad, pecynnu a gwastraff bwyd.

Mae gwastraff gardd gwyrdd hefyd yn cael ei gyflwyno gyda deunyddiau anghywir fel caniau dyfrio, cardfwrdd, dodrefn gardd a hyd yn oed rhannau o siediau yn cael eu rhoi mewn biniau olwynion gwyrdd. Er bod lefelau halogi yn is ar 5% mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd ei gynllun newydd yn rhoi hwb i ffigurau ailgylchu ar draws y ddinas.

Yn rhan o'r ymgyrch newydd, bydd sticeri pinc llachar yn cael eu rhoi ar finiau neu fagiau ailgylchu neu wastraff gardd yn rhoi gwybod i breswylwyr eu bod yn cynnwys eitemau anghywir. Os caiff sticer pinc ei roi ar gynhwysydd, bydd yn rhaid i breswylwyr fynd â'u gwastraff yn ôl i'w heiddo er mwyn cael gwared ar yr eitemau anghywir cyn iddynt roi eu hailgylchu allan eto ar y dyddiad casglu nesaf.

Aeth y Cynghorydd Michael Michael yn ei flaen i ddweud: "Os bydd pobl yn gweld pinc rydyn ni eisiau iddyn nhw stopio a meddwl. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn casglu deunydd ailgylchadwy sych mewn bagiau gwyrdd, er mwyn ei gwneud mor hawdd â phosibl i breswylwyr ailgylchu eu gwastraff.

"Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn casglu ychydig dros 40,000 tunnell o wastraff ailgylchu o strydoedd y ddinas bob blwyddyn, ond ni all 7,000 tunnell o'r gwastraff hwn gael ei ailgylchu neu mae wedi cael ei halogi gymaint gan ddeunyddiau eraill fel na ellir ei wahanu ar gyfer ei ailgylchu.

"O ran y gwastraff sy'n cael ei roi yn y bagiau gwyrdd, y camgymeriadau mwyaf cyffredin yw rhoi gwastraff bwyd, clytiau a thecstilau yn y bagiau gwyrdd. Nid oes angen rhoi'r eitemau hyn yn y bagiau ailgylchu gwyrdd, gan fod gennym gasgliadau gwastraff bwyd wythnosol ar wahân, a chasgliad hylendid ar gyfer cewynnau. Gallwch hefyd fynd ag eitemau fel tecstilau i'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

"Ar gyfer y gwastraff gardd gwyrdd, dim ond toriadau glaswellt, coed neu lwyni a dderbynnir. Dyma'r unig eitemau y dylid eu rhoi yn y biniau olwynion gwyrdd.

"Os gwelwch sticer pinc ar eich gwastraff yn y dyfodol yna byddwch hefyd yn gweld cyfeiriad ar-lein ar gyfer ein A i Y ailgylchu ar wefan y Cyngor. Gallwch weld pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn ein gwasanaeth casglu ymyl y ffordd.

"Rydym hefyd yn gofyn i breswylwyr rinsio eu caniau, eu tuniau a'u gwydr cyn eu hailgylchu. Bydd hyn oll yn helpu i wneud Caerdydd yn un o ddinasoedd gorau'r byd ar gyfer ailgylchu ac mae hynny'n rhywbeth y gallwn ni i gyd ymfalchïo ynddo."

Bydd yr ymgyrch ailgylchu newydd hon yn cynnwys pum cam hawdd eu dilyn:

Cam 1) Os bydd casglwyr gwastraff yn gweld gwastraff ailgylchu anghywir naill ai yn y bagiau gwyrdd neu'r bin olwynion gwyrdd, rhoddir sticer pinc ar y cynhwysydd sy'n cynghori'r preswylydd i weithredu.

Cam 2) Os bydd hyn yn digwydd eto, caiff sticer arall ei roi ar y cynhwysydd a bydd llythyr yn cael ei anfon i'r cyfeiriad yn hysbysu'r preswylydd ei fod wedi rhoi eitemau anghywir yn ei wastraff gan ei gynghori i weithredu.

Cam 3) Os ceir trydydd achos, bydd trydydd sticer yn cael ei roi ar y cynhwysydd a bydd llythyr ffurfiol yn cael ei anfon at y preswylydd i roi gwybod iddo y gall dderbyn hysbysiad cosb benodedig am gyflwyno ailgylchu halogedig eto.

Cam 4) Os ceir achos pellach, bydd pedwerydd sticer yn cael ei roi ar y cynhwysydd gwastraff a bydd hysbysiad adran 46 yn cael ei gyflwyno. Llythyr cyfreithiol yw hwn i roi gwybod i'r preswylydd sut y dylid cyflwyno gwastraff i'w gasglu ac y bydd methu â chydymffurfio yn arwain at hysbysiad cosb benodedig.

Cam 5) ar y 5ed achlysur, bydd hysbysiad yn cael ei anfon at ein Swyddogion Gorfodi strydlun. Byddant yn ymweld â lleoliad yr halogiad, yn chwilio ac yn tynnu'r gwastraff. Caiff hysbysiadau cosb benodedig eu hanfon lle ceir tystiolaeth. Nid yw'r hysbysiad cosb benodedig o £100 yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig.

Bydd y sticeri pinc yn cyfeirio preswylwyr at wefan, sy'n rhoi 'A-Y o ddeunyddiau ailgylchadwy' er mwyn iddynt allu ymgyfarwyddo â pha eitemau y dylid eu rhoi yn y cynwysyddion a ddarperir.

Dros gyfnod treigl o 12 wythnos, os bydd preswylydd yn rhoi eitemau anghywir naill ai yn ei fagiau gwyrdd neu yn ei fin compostio gwyrdd (neu fagiau) ar bum achlysur gwahanol, rhoddir hysbysiad cosb benodedig o £100 iddo.

Aeth y Cynghorydd Michael yn ei flaen i ddweud: "Mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond i breswylwyr sy'n rhoi'r deunyddiau anghywir wrth ailgylchu a chompostio y mae'r ymgyrch hon a'r pum cam a amlinellir yn berthnasol. Ar gyfer pob trosedd amgylcheddol arall, fel taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, gosod posteri'n anghyfreithlon, ac eraill, bydd gorfodaeth gwastraff arferol ar waith.

"Cofiwch, er nad oes modd ailgylchu rhai eitemau wrth ymyl y ffordd, gallwn ailgylchu dros 20 o eitemau eraill yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae mwy o fanylion yma

"Mae'r cynllun yn cael ei gynnal yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar addysg a gorfodi gwastraff."

Os bydd preswylydd yn anwybyddu'r sticer pinc ac yn gadael ei wastraff ar y stryd gellir hepgor y broses pum cam a gallai wynebu hysbysiad cosb benodedig o £100 yn syth am daflu sbwriel.

Mae didoli'r gwastraff hwn na ellir ei ailgylchu o ffrydiau ailgylchu'r ddinas yn costio tua £750,000 y flwyddyn i'r cyngor a'r trethdalwr, ac mae'n cael effaith negyddol ar berfformiad ailgylchu'r ddinas a allai arwain at gosbau gwerth miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru am fethu â chyrraedd ein targedau ailgylchu heriol.

Gobeithir y bydd yr ymgyrch newydd yn gwella ansawdd yr ailgylchu a gesglir yn y ddinas, yn cynyddu'r gyfradd ailgylchu ac yn helpu'r ddinas i chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd Ian Lloyd-Davies Ffôn: 029 2087 2969

E-bost: **mailto:ILloyd-Davies@caerdydd.gov.uk**